

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif .2) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
21 Mehefin 2022

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â gweinyddu a llywodraethu cyffredinol Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gwneir y Rheoliadau hyn fel rhan o gyfres o reoliadau sy'n gysylltiedig â sefydlu CBCau yng Nghymru.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 15 Gorffennaf 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am nodi bod y Rheoliadau hyn yn rhan o bedwerydd cam pecyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu CBCau ac sy'n ceisio sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddu a llywodraethu â llywodraeth leol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r rheoliadau hyn i gael eu gwneud yn adrannau 80(1), 83, 84(2) ad 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 80(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cydbwyllgorau. Mae adran 83 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu ddarpariaethau arbed, gan gynnwys o fewn rheoliadau cydbwyllgorau a rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau cydbwyllgorau. Mae adran 84(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn cysylltiad â rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft yn y Senedd.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2022.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn darparu ar gyfer nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â CBCau a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cyrff corfforaethol yw CBCau, a sefydlir drwy reoliadau. Mae pob CBC yn cynnwys aelod o'r prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sy'n sefydlu'r CBC. Mewn rhai amgylchiadau, gall CBC hefyd gynnwys aelod o awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Lle bo hyn yn wir bydd hyn hefyd yn cael ei nodi yn y rheoliadau sefydlu perthnasol. Yn ogystal, bydd CBCau yn gallu cyfethol

unigolion i fod yn aelodau. Ar hyn o bryd mae pedwar CBC wedi'u sefydlu yng Nghymru: Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin a Chyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Y bwriad cyffredinol yw y bydd CBC yn rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Hon yw'r bedwaredd set o Reoliadau Cyffredinol Cyd-bwyllgorau Corfforedig Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhan o becyn o ddarpariaethau a diwygiadau annibynnol i ddeddfwriaeth sy'n sail i bob CBC ac sy'n sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gweinyddu a'u llywodraethu'n effeithiol.

Mae pum rhan i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

Rhan 1: Cyflwyniad

Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer enwi'r rheoliadau ac iddynt ddod i rym ar 15 Gorffennaf 2022. Mae Rhan 1 hefyd yn darparu ar gyfer dehongli'r Rheoliadau.

Rhan 2: Perfformiad a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y gall Archwilydd Cyffredinol Cymru gyfarwyddo cydbwyllgorau corfforedig i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'u perfformiad.

Mae Rhan 2 hefyd yn darparu ar gyfer cymhwysu cyfundrefn perfformiad a llywodraethu llywodraeth leol o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gydag addasiadau sy'n gwneud i'r Bennod honno gyd-fynd ag amgylchiadau CBCau.

Rhaid i bob CBC yng Nghymru barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', sef i ba raddau:

- y mae'n cynnal ei swyddogaethau'n effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithiol ac effeithlon;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Y mecanwaith i CBC barhau i adolygu ei berfformiad yw hunanasesu, gyda dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol.

I ategu'r hunanasesiad, cynhelir asesiad gan banel o leiaf unwaith bob cylch etholiadol awdurdod lleol. Bydd hynny'n rhoi'r cyfle i glywed barn allanol (heblaw barn archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar y modd y mae'r CBC yn ateb ei ofynion o ran perfformiad. Bydd y gofyniad hwn yn gymwys am y tro cyntaf yng nghylch etholiadol nesaf llywodraeth leol (2027-2032)

Rhan 3: Trosolwg a chraffu

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i CBC gydweithredu â phwyllgor trosolwg a chraffu cyngor cyfansoddol (neu gydbwyllgor craffu o ddau neu ragor o gynghorau cyfansoddol) sy'n gwneud adroddiad neu argymhellion mewn perthynas ag arfer un o'i swyddogaethau gan y CBC a rhoi cymorth iddo. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn gosod dyletswydd ar CBC i roi sylw dyledus i unrhyw adroddiadau neu argymhellion o'r fath a gyhoeddir gan bwyllgor trosolwg a chraffu cyngor cyfansoddol a hefyd i gyhoeddi datganiad sy'n nodi unrhyw gamau y mae'n bwrwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad neu'r argymhelliad wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae'r Rheoliadau'n rhoi dyletswydd ddiffiniedig i CBCau gynorthwyo a chydweithredu â'r gwaith craffu a wneir gan eu cynghorau cyfansoddol a hefyd i ystyried ac ymgysylltu ag unrhyw adroddiadau neu argymhellion cyhoeddus a gyhoeddir o ganlyniad.

Mae Rhan 3 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch llywodraethu a gweinyddu is-bwyllgorau llywodraethu ac archwilio CBCau. Mae hyn yn cynnwys gofynion mewn perthynas â phenodi cadeirydd a dirprwy, trafodion a gweithdrefn bleidleisio'r is-bwyllgor ac amllder ei gyfarfodydd.

Rhan 4: Rheolau Sefydlog

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn diwygio adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y gellir gwneud rheoliadau o dan yr adran honno sy'n gymwys i CBCau. Mae adran 20 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol (gan gynnwys prif gynghorau) fabwysiadu rheolau sefydlog gweithdrefnol a nodir mewn rheoliadau. Mae Rhan 4 yn diwygio adran 20

Mae Rhan 4 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CBCau fabwysiadu rheolau sefydlog mewn perthynas â gwneud contractau gan, neu ar ran, CBC.

Rhan 5: Diwygiadau amrywiol a chanlyniadol

Mae Rhan 5 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Sefydlu ar gyfer pob un o'r pedwar CBCau, gan gynnwys mewn perthynas â'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae'r rhain yn sicrhau bod gan is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio CBC yr un cyfrifoldeb dros gwynion a rheoli perfformiad â phwyllgor llywodraethu ac archwilio awdurdod lleol.

Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys diwygiadau amrywiol a chanlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

5. Ymgynghori

Mae Adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar unrhyw gynig i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgorau. Mae Rheoliadau Drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) yn rhan o becyn o Reoliadau / Gorchmynion sy'n sail i CBCau yng Nghymru. Mae'r ymagwedd gyffredinol at ddatblygu fframwaith deddfwriaethol CBCau wedi'i chyd-ddatblygu â Llywodraeth Leol, CLILC a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys er enghraifft Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cynhwysfawr yn 2020 ar Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a'r drefn reoleiddio ehangach y bwriedid iddi fod yn gymwys i CBCau.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, roedd cefnogaeth ysgubol, yn enwedig o du awdurdodau lleol, i'r egwyddor y dylai CBCau fod yn ddarostyngedig i gyfundrefnau deddfwriaethol a llywodraethu presennol llywodraeth leol. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai fod gan CBCau lawer o'r un pwerau a dyletswyddau â phrif gynghorau a fframwaith llywodraethu a gweinyddu tebyg i brif gynghorau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach yn benodol ar Reoliadau Drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 o 28 Mawrth 2022 i 23 Mai 2022. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod y Rheoliadau'n glir ac yn cytuno â'r darpariaethau yn y Rheoliadau terfynol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-orllewin (Cymru) 2021 y costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r CBCau drwy Reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, ystyriodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin CBCau fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys ystyried defnyddio'r un swyddogaethau gweinyddu a llywodraethu / swyddogaethau gweinyddu a llywodraethu tebyg sy'n gymwys i awdurdodau lleol.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y (De-orllewin) Cymru 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.